Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BikePark Wales - Cam 2 gwaith datblygu’r safle



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Nod y prosiect oedd gwella’r profiad i ymwelwyr yn BikePark Wales drwy dirlunio'r safle a gwella’r maes parcio ceir yn ogystal â chreu canolfan groeso i ymwelwyr a llogi beiciau sy’n addas i'r diben, gan ganiatáu proses gyflym a phroffesiynol wrth i bobl gyrraedd. Yn ogystal, nod y prosiect oedd ehangu apêl marchnad BikePark Wales y tu hwnt i'r cwsmeriaid beicio mynydd craidd i gynnwys beicwyr sy’n ddechreuwyr, drwy greu’r llwybr beicio mynydd gorau a’r hiraf i ddechreuwyr yn y DU.

**Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?**

Adeiladwyd maes parcio newydd i 50 car a gwnaed gwaith tirlunio cysylltiedig.
Adeiladwyd canolfan groeso newydd sbon i ymwelwyr gyda 5 man cofrestru cwsmeriaid, canolfan llogi beiciau wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ac ystafell ddosbarth ar gyfer hyfforddi beicwyr mynydd sy’n ddechreuwyr. Mae'r ganolfan hon bellach yn croesawu tua 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac yn darparu proses fynediad sy’n llawer yn fwy esmwyth ar y safle. Yn ogystal, crëwyd ardal patio llawer mwy gyda phlanhigion a gwaith tirlunio i ddarparu profiad gwych i bobl ar ôl iddynt orffen beicio.

Mae’n bosibl mai'r gamp fwyaf oedd adeiladu “Kermit” ein llwybr 5KM o hyd, gradd gwyrdd, i ddechreuwyr i lawr y mynydd. Mae hyn yn cynnig y wefr o feicio i lawr y mynydd i gynulleidfa gwbl newydd. Mae'r amseru wedi bod yn wych wrth i bobl ifanc chwilio am brofiadau yn lle asedau ffisegol, a hefyd symud at werthfawrogi ymarfer corff yn fwy, a beicio yn arbennig, ar ôl y pandemig.

**Pwy oedd yn rhan o’r prosiect?**

Cafodd y prosiect ei arwain gan Martin Astley, cyd-sylfaenydd BikePark Wales. Daeth cymorth rheoli prosiect gan TC Consult, sef cwmni lleol o Gaerdydd. Dyfarnwyd contractau adeiladu ar gyfer y prif gamau i Back-On-Track (llwybr beiciau), contractwyr adeiladu Trio (canolfan ymwelwyr) ac EJ Thomas a'i fab (maes parcio). Mae pob un ohonynt yn fusnesau Cymreig. Cafwyd help a chymorth o'r radd flaenaf gan Lywodraeth Cymru, a hynny’n bennaf gan Lawrence Manley a Doreen Maynard.

**Sut y cafodd y prosiect ei ariannu?**

Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan y Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020) drwy'r Gronfa

Busnesau Micro a Bychan. Daeth BikePark Wales â chyllid i'r prosiect drwy arian parod o elw a benthyciadau banc.

**Gan bwy y cawsoch help a chyngor?**

Yn Llywodraeth Cymru, Lawrence Manley a'i dîm oedd ein prif bwynt cyswllt.
Mae Chris Long ac Alyn Owen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bob amser wedi bod ar gael i'n rhoi ar y trywydd cywir ers i ni gyflwyno gweledigaeth Bike Park Wales iddynt gyntaf yn 2009.

Gwnaeth TC Consult, cwmni rheoli prosiect adeiladu o Gaerdydd, gynnig gwybodaeth ragorol am y diwydiant a sicrhau ansawdd.

**Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?**

Beicio Kermit gyda'm bechgyn 3 a 5 oed, gweld beicwyr yn rhoi cynnig ar feicio mynydd am y tro cyntaf a gweld yr olwg ar eu hwynebau, gan wybod y byddant yn wrth eu bodd am oes. Y miloedd o bobl sydd wedi ymweld â BikePark Wales sydd bob amser yn dweud ***"waw, mae e gymaint yn fwy nag oeddwn i'n ei ddisgwyl".***

**A'r her fwyaf?**

Mae'n amlwg fod y coronafeirws wedi taro tipyn o gysgod dros y prosiect hwn. Bu'n rhaid inni roi'r gwaith i'r neilltu ym mis Mawrth 2020, sef hanner ffordd drwy broses adeiladu ein canolfan ymwelwyr newydd.

Fodd bynnag, mae'r heriau mwyaf wedi deillio o'r broses gydsynio. Gwnaeth caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth system ddraenio gynaliadwy (SUDS) a chydsyniad gan ein landlord, CNC, arwain at ohirio dechrau'r prosiect hwn o 2 flynedd.

**Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg?**

Disgwyliwch anawsterau ar bob cam o'r broses gynllunio a dyblwch eich cyllideb!

**Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Ehangu ein maes parcio ymhellach gan ein bod mor brysur. Hefyd, yn fwyaf cyffrous - ychwanegu rhai cyfleusterau glampio o'r radd flaenaf ar y safle sy'n unigryw inni. Mae'r unedau wedi'u dylunio gan bensaer lleol ac yn edrych yn wych. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maent ynghlwm wrth ddiwygiad cynllunio a phroses gydsynio'r landlord.

